

STRATEGAETH 2030

Byd cynaliadwy i
genedlaethau'r dyfodol



PRIFYSGOL
BANGOR
UNIVERSITY



GWELEDIGAETHOL

Mae Prifysgol Bangor mewn sefyllfa gref fel sefydliad bydeang sydd â'i wreiddiau'n ddwfn yng ngogledd Cymru. Bydd gwireddu ein strategaeth uchelgeisiol yn golygu y gallwn fuddsoddi i wella mwy fyth ar y profiad rhagorol yr ydym yn ei gynnig i fyfyrwyr a chynyddu'r ymchwil a wnawn, sydd gyda'r gorau yn y byd ac yn rhyngwladol ragorol.



Roedd yn anrhydedd gennyf ymgymryd â swydd Is-ganghellor Prifysgol Bangor ym mis Medi 2022.

Rydym yn cyfrannu at amgylchedd cynaliadwy a llewyrchus, er mwyn ein planed, ein gwlad ac unigolion ar draws ein cymunedau. Mae cynaliadwyedd yn un o werthoedd craidd ac yn un o brif egwyddorion y brifysgol. Mae Prifysgol Bangor hefyd yn sefydliad dwyieithog ymroddedig, sy'n ymfalchïo yn ein treftadaeth Gymreig a'r Gymraeg. Mae gogledd Cymru yn lle bendigedig i fyw, dysgu a gweithio ynddo. Mae'r staff a'r myfyrwyr yma yn mwynhau profiad ac ansawdd bywyd da.

Mae Prifysgol Bangor mewn sefyllfa gref fel sefydliad byd-eang sydd â'i wreiddiau'n ddwfn yng ngogledd Cymru. Rydym wedi atgyfnerthu ein safle fel prifysgol ymchwil-ddwys, gyda pherfformiad yn Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil, sef REF2021, sydd wedi ein gosod yn ail yng Nghymru ac yn y 42 uchaf yn y Deyrnas Unedig. Ar ben hynny, mynegodd saith o bob deg o fyfyrwyr y flwyddyn olaf, a gymerodd ran yn Arolwg Cenedlaethol Myfyrwyr 2023, foddhad ag ansawdd eu cwrs.. Fel sy'n wir am bob prifysgol, rydym yn wynebu dyfodol sy'n llawn heriau a chyfleoedd, ac mae'n hanfodol ein bod yn adeiladu ar lwyddiannau diweddar drwy fynd ar drywydd y màs critigol sy'n angenrheidiol i fod yn brifysgol gynaliadwy a pherthnasol yn fyd-eang.

Rydym felly'n cyflwyno strategaeth sydd yn canolbwyntio, o reidrywydd, ar dwf, ac un a fydd yn gofyn i ni weithredu gydag ystwythder.

Bydd gwireddu ein strategaeth uchelgeisiol yn golygu y gallwn fuddsoddi i wella mwy fyth ar y profiad rhagorol yr ydym yn ei gynni i fyfyrwyr a chynyddu'r ymchwil a wnawn, sydd gyda'r gorau yn y byd ac yn rhyngwladol ragorol. Rydym yn bwriadu parhau i sicrhau buddion cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol drwy ein heffaith, sydd gyda'r gorau yn y sector, gan fynd i'r afael â heriau cymdeithasol byd-eang mewn meysydd sy'n cynnwys gofal iechyd, newid yn yr hinsawdd ac atebion ynni ar gyfer y dyfodol. Bydd ein myfyrwyr yn elwa o gael eu haddysgu a'u hysbrydoli gan ddarlithwyr ac ymchwilwyr rhagorol, trwy gwricwlwm sy'n datblygu'n barhaus ac sy'n seiliedig ar ein rhagoriaeth ymchwil. Byddwn yn sicrhau bod ein myfyrwyr yn cael profiad addysgol trawsnewidiol, a'u bod yn graddio o Fangor gyda'r wybodaeth, yr uchelgais a'r hyder i lwyddo yn eu gyrfaoedd ar ôl gorffen eu hastudiaethau.

Rydym wedi ymrwymo i'n cyfrifoldeb fel prifysgol ddinesig ac fel angor i'r rhanbarth, gan gyfrannu at ffyniant gogledd Cymru yn y dyfodol. Fel rhan o'r ymrwymiad hwn, byddwn yn ceisio gwella ein gwelededd a'n perthnasedd yn y rhanbarth, er enghraifft trwy

datblygu llwybrau i addysg uwch trwy ymgysylltu ystyrlon ar draws sector addysg gogledd Cymru.

Un o'r datblygiadau pwysicaf i'r brifysgol a'r rhanbarth yn ystod cyfnod y cynllun strategol hwn fydd sefydlu Ysgol Feddygol Gogledd Cymru. Bydd y fenter hollbwysig hon yn cynyddu nifer y gweithwyr meddygol a gofal iechyd proffesiynol a hyfforddir yng ngogledd Cymru, gan gefnogi'r gweithlu meddygol ac iechyd rhanbarthol, a chynyddu gallu ymchwil y brifysgol a thwf y sector gwyddorau bywyd yn y rhanbarth. Rwyf wedi ymrwymo i fwrw ymlaen â Strategaeth 2030 i sicrhau twf cynaliadwy, addysg ragorol, ymchwil ag effaith fyd-eang a phrofiad rhagorol i fyfyrwyr, fel bod y brifysgol yn parhau i wneud ei rhan wrth gyfrannu at greu byd iach a llewyrchus i fyw ynddo."



Yr Athro Edmund Burke
Is-ganghellor



CENHADAETH, GWELEDIGAETH A GWERTHOEDD



EIN CENHADAETH

Prifysgol dan arweiniad ymchwil sydd wedi ei gwreiddio yng ngogledd Cymru, sy'n ymgysylltu'n fyd-eang ac yn cynnig profiadau dysgu trawsnewidiol ac yn meithrin effaith gadarnhaol ar gymdeithas yn rhanbarthol, yn genedlaethol, ac yn rhyngwladol.

EIN GWELEDIGAETH

Prifysgol fyd-eang ei chysylltiadau, sy'n manteisio ar gyfleoedd i lwyddo trwy ymchwil ac addysgu trawsnewidiol ac arloesol sy'n seiliedig ar effaith gydag ymrwymiad i gynaliadwyedd.

ERS 1884



CREU.

Ein gwerthoedd a'n prif egwyddorion

Y pedwar gwerth a'r prif egwyddorion hyn yw conglfefini ein diwylliant. Nhw sy'n llywio'r penderfyniadau a wnawn a'n dull o weithio gyda'n gilydd fel cymuned prifysgol.

Uchelgais

Cawn ein hysbrydoli gan ein hanes a'n pobl i alluogi'r eithriadol. Rydym yn ddewr ac mae gennym uchelgais ar gyfer y Brifysgol, ein cydweithwyr, a'n myfyrwyr, ac rydym hefyd yn cefnogi uchelgais ein partneriaid. Cawn ein sbarduno, fel lleoliad ymdrechion academaidd, arloesi a thrawsnewidiol, i helpu i gyfoethogi cymdeithas. Rydym wedi ymrwymo i ragoriaeth ar bob lefel o'r profiad addysgol a chreadigol.

Cynwysoldeb

Rydym yn darparu mynediad cyfartal, hawliau cyfartal, a chyfiawnder cyfartal i bawb. Byddwn yn hyrwyddo parch at hawliau a rhyddid pobloedd amrywiol a'u syniadau, eu cefndiroedd a'u dulliau o geisio gwybodaeth a dealltwriaeth. Rydym yn ymddiried, yn gwerthfawrogi, yn grymuso ac yn gofalu am ein gilydd, ac rydym yn atebol am yr hyn a wnawn. Fel cydweithredwyr byddwn yn ymatebol ac yn cyflawni mwy gyda'n gilydd.

Uniondeb

Rydym yn gweithredu gyda gonestrwydd a thryloywder a byddwn yn ymdrechu i gydweithredu ym mhopeth a wnawn. Byddwn yn hwyluso twf deallusol trwy ryddid academaidd, mynegiant creadigol, cyfathrebu gwirionedd a gwybodaeth, a datblygiad cymdeithasol a moesol.

Cynaliadwyedd

Rydym yn frwd dros hyrwyddo diwylliant ac ysgolheictod lle rhoddir pwyslais ar stiwardiaeth amgylcheddol, byw mewn cytgord, a gofalu am y byd mewn ffyrdd sy'n diwallu ein hanghenion economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol. Byddwn, gyda'n hymchwili blaenllaw yn sylfaen i ni, yn cefnogi datblygiad Cymru fel gwlad ddwyieithog sy'n dysgu, lle ceir economi a sbardunir gan wybodaeth er budd y byd a chenedlaethau'r dyfodol.




TAIR COLOFN A THAIR THEMA

Yn sail i strategaeth y brifysgol mae tair colofn strategol a thair thema drawsnewidiol.

Mae tair colofn strategol a thair thema drawsnewidiol yn sail i strategaeth y Brifysgol.

Bydd y colofnau strategol yn cynnal ac yn datblygu ein hymdrechion craidd i osod y Brifysgol fel grym ar gyfer addysg uwch ac economi'r gogledd. Bwriedir i'r weledigaeth fod yn wirioneddol drawsnewidiol, gan gryfhau a hyrwyddo potensial y Brifysgol mewn modd sy'n cyd-fynd yn thematig â'i chryfderau cyfredol a'r blaenoriaethau polisi cenedlaethol.



YN SAIL I

Cynaliadwyedd sefydliadol



TAIR COLOFN

20—30

RHAGORIAETH YMCHWIL

Byddwn yn cynnal twf ein sylfaen ymchwil mewn meysydd o ragoriaeth a maintiolaeth ymchwil a byddwn yn dangos yn gyhoeddus y pwys sylweddol a roddwn ar ein gweithgareddau ymchwil ac effaith. Bydd ein hymchwil yn parhau i fod yn rhagorol yn rhyngwladol ac yn berthnasol yn gymdeithasol.



Byddwn hefyd yn cysylltu ymchwil â'n hamgylchedd lleol fel bod ei heffaith yn helpu i sbarduno adfywiad economaidd a chymdeithasol ledled y rhanbarth.

EIN BLAENORIAETHAU

Enw da ledled y byd

Bydd ein henw da yn cael ei ddatblygu trwy ganolbwyntio ar ragoriaeth ymchwil y cydnabyddir ei bod yn rhagorol yn rhyngwladol. Fel elfen gredadwy i'n gwahaniaethu oddi wrth eraill, bydd cynaliadwyedd yn sail i'n hymchwil a byddwn yn sefydlu Canolfan Ragoriaeth Fyd-eang mewn Cynaliadwyedd. Byddwn yn annog, yn cefnogi ac yn gwobrwyo effaith ac ymchwil ryngddisgyblaethol ym maes cynaliadwyedd.

Rhagoriaeth ar raddfa fawr

Byddwn yn cynnal portffolio cytbwys sy'n bodloni anghenion cyllidwyr lluosog ac amrywiol, tra'n chwilio am gyfleoedd i wireddu potensial mewn meysydd rhagoriaeth ymchwil sydd ar raddfa ar hyn o bryd neu fydd ar raddfa yn y dyfodol. Byddwn yn cynnal lefelau uwch o fuddsoddi yn ein hisadeiledd ymchwil trwy sefydlu mentrau newid strategol sydd â'r potensial i gael effaith drawsnewidiol ar ddatblygu ein maintiolaeth, a thrwy fynd ar drywydd cyfleoedd sy'n cyd-fynd â chanlyniadau cyllido mwy ffafriol. Byddwn yn cefnogi rhyngddisgyblaeth trwy wella cydgysylltu rhwng colegau gyda chefnogaeth gan y gwasanaethau proffesiynol.





EIN BLAENORIAETHAU

Effaith drawsnewidiol

Byddwn yn blaenoriaethu meysydd o ragoriaeth ymchwil sydd â'r potensial i gael effaith drawsnewidiol ar adfywiad economaidd, diwydiannol a chymdeithasol, a byddwn yn defnyddio ein gallu i ymelwa ar wybodaeth i gefnogi ein blaenoriaethau o ran addysgu, cenhadaeth ddinesig a chyflogadwyedd. Bydd integreiddio arbenigedd mewn cyfnewid gwybodaeth a masnacheiddio yn y brifysgol a'i his-gwmnïau yn gwella canlyniadau a pherfformiad. Byddwn yn hyrwyddo ymchwil ac effaith fel gweithgarwch didor, cydgordiol, a gefnogir gan wasanaeth Cefnogi Effaith ac Ymchwil Integredig a strwythurau academaidd y brifysgol.

Cydweithio a phartneriaethau

Byddwn yn gweithio mewn partneriaeth ac yn cydweithredu â rhanddeiliaid allweddol i wireddu cyfleoedd a gynhigir gan ffynonellau cyllid sy'n gysylltiedig â strategaethau a mentrau adfywio economaidd, diwydiannol a chymdeithasol. Byddwn yn gweithio mewn partneriaeth ag elusennau, cyrff y llywodraeth, a chwmnïau - yn fusnesau newydd a busnesau bach a chanolig eu maint a chwmnïau rhyngwladol - mewn ymdrech gydweithredol a chreadigol i drosi gwybodaeth ac ymchwil yn effaith.



TAIR COLOFN

20—30

ADDYSG DRAWSNEWIDIOL

Byddwn yn rhoi cyfleoedd i bob myfyriwr ac aelod staff ddatblygu eu syniadau a'u diddordebau trwy brofiadau dysgu a phrofiadau gwaith sy'n gyfoethog a thrawsnewidiol, gyda phum nodwedd addysgol greiddiol yn sylfaen i hynny, sef - herio, ymholi, cymhwyso, cydweithredu a hunan-gyfeirio.



Bydd ein cwricwlwm yn cael ei arwain gan ymchwil ac wedi ei alluogi'n ddigidol er mwyn rhoi sylw i heriau economaidd, iechyd a chymdeithasol, a bydd yn meithrin cyfrifoldeb dinesig trwy gysylltiad â chymdeithas. Rydym wedi ymrwmo i ddarparu profiad personol i'r myfyrwyr; mae hyn yn golygu rhoi cefnogaeth i bob myfyriwr allu derbyn cyfleoedd, datblygu a gwireddu eu huchelgais.

EIN BLAENORIAETHAU

Arwyddocâd rhanbarthol a byd-eang

Byddwn yn ymdrechu i gynyddu recriwtio myfyrwyr trwy bortffolio cwricwlaidd eang, dwyieithog, a gaiff ei lywio gan ymchwil ac ymarfer, sy'n seiliedig ar dystiolaeth ac sy'n cyd-fynd â galw'r farchnad, adolygiadau cwricwlwm ac asesu trylwyr ac yn datblygu newid strategol, megis sefydlu Ysgol Feddygol Gogledd Cymru, i wella arwyddocâd rhanbarthol, cenedlaethol a byd-eang yr addysg a ddarparwn.

Gwell gallu digidol

Byddwn yn datblygu ein gallu digidol ac yn sicrhau bod pob myfyriwr, fel rhan o'u rhaglenni, yn gallu cymryd rhan neu brofi ymchwil ac arloesi sy'n cael ei sbarduno'n ddigidol neu gan dechnoleg. Byddwn yn croesawu cyfleoedd i gyfuno'r defnydd o dechnoleg ddigidol, gyda'n darpariaeth addysg drawswladol a'n harbenigedd mewn dwyieithrwydd, i ddatblygu

cysyniad yr ystafell ddosbarth ryngwladol.

Amgylchedd dysgu carlam

Byddwn yn sicrhau bod dulliau addysgu a dysgu'n rhai cyfoes a'u bod yn hwyluso dysgu a chyrrhaeddiad, trwy gymuned addysgu sydd wedi ei hyfforddi, ei chefnogi a'i gwobrwyo'n dda. Bydd ein datblygiadau o ran yr amgylchedd dysgu yn gynhwysol ac yn cael eu gwneud ar sail tystiolaeth gan ddilyn arferion gorau'r sector, a thrwy hynny'n galluogi addysgwyr i ddarparu amgylchedd dysgu perfformiad uchel a gwella profiad dysgu'r myfyrwyr. Rydym wedi ymrwmo i amgylcheddau dysgu ffisegol a rhithiol sy'n gynhwysol, yn cefnogi dewisiadau myfyrwyr ynglŷn â'u ffordd o fyw ac yn darparu cyfleusterau a gwasanaethau cynaliadwy o ansawdd uchel waeth ble'r ydych.

CYFRIFOL.





EIN BLAENORIAETHAU

Profiad rhagorol i fyfyrwyr

Rydym am i'n myfyrwyr allu ffynnu'n academiaidd ac yn bersonol fel rhan o gymuned prifysgol dosturiol a chefnogol; felly byddwn yn gweithio gyda'n myfyrwyr ac Undeb y Myfyrwyr i gyflwyno dull o ymdrin ag iechyd meddwl a lles myfyrwyr sydd wedi'i seilio ar brofiad bywyd ein myfyrwyr. Byddwn yn gwella cyfleoedd ar gyfer dysgu cymdeithasol a gweithgareddau gwaith grŵp ar bob campws ac yn ein hamgylcheddau dysgu rhithiol, er mwyn sicrhau eu bod yn diwallu anghenion ein myfyrwyr, a byddwn yn gweithio gydag Undeb y Myfyrwyr i ddarparu amrywiaeth eang a chynhwysol o gyfleoedd chwaraeon a chymdeithasol allgyrsiol i fyfyrwyr, sy'n mynd y tu hwnt i chwaraeon traddodiadol ac yn cynnwys gweithgareddau anghystadleuol a lled-gystadleuol eang eu hapêl i bob myfyriwr.

Myfyrwyr fel partneriaid

Byddwn yn cydweithio â'n myfyrwyr ac Undeb y Myfyrwyr, gan sicrhau eu bod yn greiddiol i'r penderfyniadau a wnawn wrth lunio eu haddysg a'u profiad fel myfyrwyr trwy sicrhau cynrychiolaeth o blith y myfyrwyr yn ein pwyllgorau, yn ein dull o ddatblygu'n strategol a rhedeg y brifysgol o ddydd i ddydd, gan

gynnwys cyfleoedd i wasanaethau sy'n troi o amgylch myfyrwyr ac i ddyluniad cyfleusterau gefnogi ac annog gweithgareddau dan arweiniad myfyrwyr. Byddwn yn cau'r "bwlch adborth" trwy barhau i ddadansoddi adborth myfyrwyr trwy arolygon sefydledig, gan gyfathrebu'n glir i'n myfyrwyr sut rydym wedi ymateb i'w hadborth.

Cyfoethogi canlyniadau myfyrwyr

Byddwn yn gwella cyfleoedd i fyfyrwyr ddatblygu a chyfoethogi eu gwybodaeth, eu sgiliau, eu profiad, a'u hystwythder diwylliannol er mwyn iddynt gyflawni'r canlyniadau gorau posib yn academiaidd ac o ran cyflogaeth. Byddwn yn meithrin dyheadau ein myfyrwyr a'u gallu i fynegi eu potensial, i gefnogi trosglwyddo neu ddatblygu'n llwyddiannus i fyd gwaith. Byddwn yn datblygu ac yn hyrwyddo y cysyniad Graddedigion Bangor, sef dinasyddion byd-eang sydd â'r wybodaeth, y sgiliau a'r nodweddion angenrheidiol i ymdopi â byd gwaith sy'n newid. Bydd Graddedigion Bangor yn rhan o gymdeithas, ac yn hyrwyddo cynaliadwyedd trwy ddiogelu ein lles amgylcheddol, cymdeithasol, economaidd a diwylliannol.



TAIR COLOFN

20—30

Y GYMRAEG A DIWYLLIANT CYMRU

Rydym wedi ein lleoli yng nghanol un o gymunedau Cymraeg mwyaf bywiog Cymru ac mewn lle unigryw yn y dirwedd gymdeithasol, ddiwylliannol, ac economaidd.

Trwy wella a chryfhau ein hymrwymiad i'r Gymraeg ymhellach mewn addysgu, ymchwil, allgymorth cymunedol, ac yn y gwaith, ein nod yw sicrhau bod Prifysgol Bangor yn arwain y sector o ran darpariaeth Gymraeg, ac yn arwain y byd fel lladmerydd dros ddwyieithrwydd, gan gyfrannu at nod tymor hir Llywodraeth Cymru o gyrraedd miliwn o siaradwyr erbyn 2050.

EIN BLAENORIAETHAU

Ein hiaith, ein gwaith

Byddwn yn hyrwyddo man gwaith dwyieithog sy'n arwain y byd ac sy'n hwyluso cyfleoedd i'n pobl gynnal pob agwedd ar eu gwaith trwy gyfrwng y Gymraeg, gan feithrin a chefnogi unigolion i ymwneud â'r Gymraeg, a'i defnyddio, a meithrin dull cadarnhaol a chynhwysol o hyrwyddo a datblygu'r Gymraeg ar draws y brifysgol. Byddwn yn rhoi cyfle i'n holl staff a myfyrwyr ddatblygu a mireinio eu sgiliau iaith a byddwn yn ymgorffori ethos Cymraeg a'i wneud yn rhan greiddiol o'n hunaniaeth.

Ein myfyrwyr, ein dyfodol

Byddwn yn anelu at ailgodi recriwtio myfyrwyr ar draws y rhanbarth trwy greu profiad Cymraeg i fyfyrwyr, sy'n arwain y sector, gan dyfu a gwella'r cyfleoedd i fyfyrwyr astudio trwy gyfrwng y Gymraeg, a'r adnoddau sy'n cefnogi hynny. Trwy ddatblygu a mireinio ein cwricwlwm Cymraeg, a thrwy ymestyn cyfleoedd cyflogadwyedd cyfrwng Cymraeg, byddwn yn rhoi sgiliau i'n myfyrwyr i'w galluogi i fynd yn hyderus i amrywiaeth o yrfaeodd, gan gynhyrchu graddedigion a all wneud cyfraniad ystyrlon a pharhaus at fywyd Cymru, a thu hwnt.

CEFNOGAETH.

EIN BLAENORIAETHAU

Trawsnewid cymdeithasol, economaidd a diwylliannol

Byddwn yn sicrhau bod ein hagenda ymchwil yng Nghymru yn cyd-fynd â blaenoriaethau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol sy'n ymwneud â thrawsnewid cymdeithasol, economaidd, a diwylliannol. Mewn amrywiaeth o ddisgyblaethau, byddwn yn cyfrannu at gynaliadwyedd yr iaith Gymraeg trwy ein hymchwil blaenllaw ar yr iaith Gymraeg, ei llenyddiaeth a'i diwylliant, a dwyieithrwydd ac amlieithrwydd, gan barhau i ddatblygu arloesi sy'n arwain y byd mewn technoleg iaith. Byddwn yn ymgysylltu â llywodraeth leol a'r llywodraeth genedlaethol, asiantaethau iechyd a'r gymuned fusnes yng ngogledd Cymru - yn arbennig trwy sefydlu Ysgol Feddygol Gogledd Cymru, i sicrhau bod ein gweithgareddau'n berthnasol i anghenion rhanddeiliaid, cynllunwyr iaith a llunwyr polisi, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol.

Ein cymunedau

Byddwn yn cryfhau ein perthynas â chymunedau ledled gogledd Cymru trwy sicrhau bod ein gweithgareddau'n berthnasol ac yn ddealladwy i bobl sy'n byw yn y rhanbarth, gan weithio ar y cyd â grwpiau a rhanddeiliaid lleol i sicrhau trawsnewidiad cymdeithasol ac economaidd. Byddwn yn parhau i gynyddu ein hymrwymiad i ddiwylliant Cymru a'r celfyddydau drwy ein haddysgu a'n hymchwil a Pontio.





TAIR THEMA

20—30

EFFAITH ECONOMAIDD, CYMDEITHASÓL A DINESIG

Er mwyn cefnogi Cymru lewyrchus, rydym yn rhagweld cilgant arloesi, yn ymestyn o Weriniaeth Iwerddon i bwerdy gogledd orllewin Lloegr gyda'r brifysgol yn y canol yn gwthio agenda arloesi ar sail lle.

Byddwn yn cefnogi cyfoeth o weithgareddau'n ymwneud â'n cenhadaeth ddinesig - yn rhanbarthol, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol - ac yn cydnabod bod hyn yn agwedd sylfaenol ar ein gweithgareddau craidd.

EIN BLAENORIAETHAU

Cefnogi busnes

Byddwn yn chwarae rhan flaenllaw yn natblygiad economaidd gogledd Cymru a'r Deyrnas Unedig, gan ddylanwadu a chefnogi sectorau diwydiannol allweddol a'u cadwynau cyflenwi. Byddwn yn canolbwyntio ar sectorau o arwyddocâd rhanbarthol ac ar y rhai sydd â photensial newydd i dyfu, megis iechyd ac ynni carbon isel, gan weithio mewn partneriaeth â sefydliadau cyhoeddus a phreifat i hyrwyddo gwytnwch a chynaliadwyedd. Byddwn yn adeiladu ar lwyddiant M-Sparc, ein parc gwyddoniaeth, i gefnogi ein dyhead i weld rhagor o gyflogadwyedd, busnesau cychwynnol a masnacheiddio ledled gogledd Cymru. Byddwn yn benodol yn ceisio chwarae rhan arweiniol yn nhwf sector iechyd a gwyddorau bywyd ffyniannus ledled y rhanbarth trwy ddatblygiad ymchwil yn Ysgol Feddygol Gogledd Cymru.

Sgiliau rhanbarthol

Byddwn yn cefnogi ymdrechion i ddatblygu'r gweithlu rhanbarthol trwy ein darpariaeth israddedig ac ôl-radd ac ymdrechion i uwchsgilio'r gweithlu presennol trwy ein rhaglenni datblygiad proffesiynol parhaus a chymwysterau proffesiynol. Byddwn yn arwain gweledigaeth gyffredin ar draws y sector addysg yng ngogledd Cymru i bontio ar draws ffiniau statudol, addysg bellach ac addysg uwch a darparu cynnig amgen i lwybrau addysg a hyfforddiant sefydledig trwy ddatblygu llwybrau i ddiwallu anghenion sgiliau yn y rhanbarth.

EIN BLAENORIAETHAU

Ysgol Feddygol Gogledd Cymru


Byddwn yn sefydlu Ysgol Feddygol Gogledd Cymru fel amgylchedd dysgu a hyfforddi dwyieithog trawsffurfiol, rhyngbroffesiynol. Ar sylfaen ymchwil a chynnydd gwyddonol, byddwn yn llywio portffolios addysg a sgiliau, gan gyfrannu at well canlyniadau iechyd ar draws y rhanbarth. Byddwn yn sbarduno ymchwil ac ymarfer blaengar ym maes iechyd ataliol ac ymyrraeth gynnar i fynd i'r afael â phroblemau cydberthynol, megis poblogaeth sy'n tyfu, gyda phroffil oedran cynyddol hŷn, ac anghydraddoldebau iechyd strwythurol ledled gogledd Cymru.

Cymunedau cydlynol, gwydn

Byddwn yn meithrin cymunedau cydlynol a gwydn, gan ymgorffori cysylltiadau dinesig trwy gydol ein strategaethau a'n gweithrediadau. Byddwn yn sicrhau cyfathrebu clir, effeithiol a rheolaidd â rhanddeiliaid, i wella a chyfoethogi ein cysylltiadau â'n gilydd er budd pawb. Byddwn yn gweithio gyda rhanddeiliaid allanol i nodi a mynd i'r afael â heriau cymdeithasol, gan sicrhau bod ein hymchwil yn ymdrin â heriau a chyfleoedd rhanbarthol, cenedlaethol a byd-eang. Byddwn yn cefnogi busnesau a chyflenwyr lleol fel un o egwyddorion ein harferion caffael.

Prifysgol hygyrch

Byddwn yn cynnal perthynas ystyrlon ag ysgolion rhanbarthol a chymunedau addysg bellach i sefydlu llwybrau i addysg uwch, gan groesawu gweledigaeth o ehangu mynediad i ymgysylltu a chodi dyheadau'r rhai a dangynrychiolir mewn addysg uwch, gan eu cefnogi i drosglwyddo'n llwyddiannus i addysg uwch a symud ymlaen i yrfaeodd llwyddiannus. Byddwn yn cyflwyno rhaglen gyfoethog ac amrywiol o fentrau cysylltiadau cyhoeddus a chymdeithasol a sicrhau bod ein cyfleusterau a'n adeiladau yn hygyrch i gymunedau lleol ac y gellir eu defnyddio er budd ein cymunedau. Byddwn yn datblygu ac yn gwella ein gweithgareddau diwylliannol er budd y gymuned ehangach trwy gyfrwng Pontio, ein canolfan celfyddydau ac arloesi.



HYGYRCH.





TAIR COLOFN

20—30

YMGYSYLLTU BYD-EANG

Byddwn yn creu ac yn cefnogi cyfleoedd i'n myfyrwyr a'n staff ymgysylltu'n fyd-eang, gan weithio gyda'n partneriaid i adeiladu byd mwy cynaliadwy ar gyfer cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol.



Mae ein dull o ymgysylltu byd-eang yn seiliedig ar ymrwymiad i weithio a chyflawni mewn partneriaeth, gan werthfawrogi ein sylfeini amlieithog ac amlddiwylliannol i gefnogi ein dinas, ein rhanbarthau, a'n partneriaid byd-eang.

EIN BLAENORIAETHAU

Profiad byd-eangl

Byddwn yn darparu profiad y mae'r byd cyfan yn dylanwadu arno i fyfyrwyr trwy ddatblygu a chynnal cwricwlwm sy'n adlewyrchu materion a safbwyntiau rhyngwladol, gan gynyddu nifer y myfyrwyr rhyngwladol yma trwy ddull strategol sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Byddwn yn sicrhau profiad byd-eang i'r holl raddedigion trwy addysg drawswladol a symudedd myfyrwyr; a thrwy hyn byddwn yn meithrin cymuned fyd-eang sy'n hybu enw da Bangor ac yn gwella amlygrwydd ein brand byd-eang. Byddwn yn hyrwyddo symudedd staff a myfyrwyr, cydweithredu ac ysgolheictod byd-eang. Byddwn yn creu cyfleoedd i staff a myfyrwyr ymgymryd ag ymchwil ac arloesi o'r radd flaenaf i adeiladu'r wybodaeth a'r atebion sydd eu hangen i gefnogi cymdeithas a sicrhau datblygiad cynaliadwy byd-eang.

Partneriaethau byd-eang cynaliadwy

Byddwn yn sicrhau bod ein gweithgareddau byd-eang yn fwy cadarn a chryf, gan fuddsoddi yn ein pobl a'n partneriaethau strategol i wireddu ein blaenoriaethau cyffredin, trwy well cyfathrebu a chydgyllunio. Byddwn yn gweithio gyda'n partneriaid byd-eang, Cymru Fyd-eang ac yn sicrhau bod ein gwaith yn cyd-fynd â strategaethau rhyngwladol Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y Deyrnas Unedig i gynyddu perthnasedd ac effaith. Byddwn yn nodi ac yn datblygu partneriaethau cydweithredol a fydd yn cyfrannu at gyflawni cenhadaeth a gweledigaeth y brifysgol ac a fydd yn ehangu ôl troed a dylanwad y brifysgol ledled y byd. Bydd portffolio amrywiol a chynaliadwy o bartneriaethau yn strategol bwysig i'r brifysgol, bydd hyn yn cynnwys ymchwil, addysg drawswladol, a chynlluniau cyfnewid myfyrwyr a staff a fydd yn cyfoethogi'r profiad maent yn ei gael.

Bangor Fyd-eang

Byddwn yn newid y ffordd rydym yn gweithio i gefnogi ein hymgysylltiad byd-eang er mwyn bod yn bartner o ddewis yn lleol, yn ein rhanbarthau ac yn fyd-eang. Byddwn yn hyrwyddo dulliau sy'n wirioneddol werthfawrogi ac yn hyrwyddo amrywiaeth ar bob ffurf, gan adeiladu ar ein sylfaen fel y sefydliad dwyieithog mwyaf blaenllaw yng Nghymru a'n hymrwymiad i amrywiaeth ddiwylliannol. Bydd ein hymrwymiad i ddatblygu dull unigryw yn annog cymuned ein prifysgol i gydweithio ar draws ffiniau academaidd, gan gynnwys myfyrwyr a staff, academyddion a gwasanaethau proffesiynol. Bydd ein partneriaid lleol a byd-eang yn elwa o'n hymrwymiad i fynd i'r afael â heriau cyffredin a sicrhau cyfleoedd ar y cyd, a fydd yn dod â budd ymgysylltiad byd-eang ein prifysgol yn ôl i Fangor ac i Gymru.

BYD-EANG.



TAIR COLOFN

20—30

EIN POBL

Rydym wedi ymrwymo i greu amgylchedd gweithio a dysgu iach i staff a myfyrwyr ac i gymuned ehangach y brifysgol.

Byddwn yn creu lle gwaith eithriadol, amrywiol a chynaliadwy a fydd yn annog pobl i gyflawni nodau personol a sefydliadol a sicrhau bod gennym oll bwrpas cyffredin. Byddwn yn recriwtio, yn cefnogi, yn dyrchafu ac yn dal ein gafael ar staff dawnus sy'n gwneud gwaith da, trwy greu amgylchedd a fydd yn eu galluogi i lwyddo. Pobl yw ein hased pennaf, a byddwn yn cefnogi ein staff i gyflawni canlyniadau sy'n arwain y sector. .

EIN BLAENORIAETHAU

Iechyd a lles

Byddwn yn defnyddio dull cyfannol prifysgol iach a byddwn yn cefnogi ein staff a'n myfyrwyr i wireddu eu potensial, ymdopi â straen arferol bywyd, gweithio'n gynhyrchiol a chyfrannu at eu cymunedau. Yn ogystal â chodi ymwybyddiaeth am ein darpariaeth gyfredol, byddwn yn datblygu hyfforddiant iechyd a lles, gan gydbwysu cyfrifoldeb y Brifysgol a pherchnogaeth yr unigolyn, wrth hyrwyddo iechyd ataliol a thegwch iechyd. Byddwn yn mynd ymhellach i ymgorffori gweithio dynamig i gefnogi llesiant a chyfrifoldebau proffesiynol a phersonol. Bydd sylw i lwyth gwaith, llesiant a gwytnwch, gyda mynediad at adnoddau, cefnogaeth a chyfleusterau yn ymgorffori diwylliant sy'n hyrwyddo cydbwysedd cynaliadwy ac iach rhwng bywyd a gwaith.

Symud, gweithgarwch corfforol, a chwaraeon

Mae'r brifysgol yn cydnabod cyfraniad pwysig gweithgarwch corfforol a chwaraeon tuag at iechyd corfforol a lles meddyliol cadarnhaol. Byddwn yn meithrin agwedd gynhwysol tuag at

weithgarwch corfforol a chwaraeon i staff a myfyrwyr, gan gydweithio â phartneriaid, a chyd-fynd â pholisi cenedlaethol i sicrhau bod chwaraeon a gweithgarwch corfforol yn chwarae rhan yn natblygiad ein blaenoriaethau strategol. Bydd ein cyfleusterau chwaraeon a hamdden yn chwarae rhan ganolog ym mywyd y campws, ynghyd â chefnogi cenhadaeth ddinesig y brifysgol trwy ddarparu asedau cymunedol gwerthfawr i helpu i wella iechyd a lles myfyrwyr, staff a'r gymuned ehangach.

Safonau proffesiynol

Byddwn yn arddel ac yn cefnogi amgylchedd sy'n hyrwyddo gwerthoedd ac ymddygiad cadarnhaol fel rhan o ddiwylliant amrywiol a galluogol, gan ddathlu'r Gymraeg, a chreu cymuned ddwyieithog, oddefgar gydag urddas a pharch a safonau proffesiynol uchel.

Cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant

Byddwn yn parhau i weithio tuag at ddileu gwahaniaethu a hyrwyddo cyfle cyfartal, gan gynorthwyo staff i ffynnu mewn lle gwaith dwyieithog,

cynhwysol ac amrywiol. Bydd gennym ddull gweithredu sy'n goddef dim gwahaniaethu, aflonyddu na bwlio.

Arweinyddiaeth

Byddwn yn datblygu ac yn cefnogi twf arweinyddiaeth drawsnewidiol ac effeithiol, gan arfogi ein harweinwyr a'n rheolwyr â'r sgiliau, yr ymddygiad a'r gallu angenrheidiol i gyflawni eu cyfrifoldebau. Byddwn yn datblygu llwybr talent ac olyniaeth a fydd yn cyd-fynd â'n nodau a'n dyheadau tymor hir.

Gwobrwyo dawn

Byddwn yn denu, yn ysgogi, ac yn ymgysylltu ag unigolion i sbarduno diwylliant perfformiad uchel lle mae staff yn cymryd cyfrifoldeb am eu perfformiad a'u datblygiad eu hunain, ac yn addasu i newid parhaus. Byddwn yn sicrhau ein bod yn annog, yn cefnogi, ac yn galluogi staff i gaffael gwybodaeth a sgiliau a datblygu ffyrdd newydd o weithio, er mwyn cefnogi a sicrhau bod dyheadau unigol â nodau sefydliadol yn cyd-fynd â'i gilydd. Byddwn yn gwobrwyo ac yn cydnabod cyfraniad rhagorol tuag at gyflawni nodau'r brifysgol



CYNALIADWYEDD SEFYDLIADOL

Byddwn yn defnyddio'r isadeiledd, yr adnoddau a'r gwasanaethau galluogi fel sylfaen i sicrhau y gall y brifysgol gyflawni ei huchelgais i dyfu.



Bydd diwylliant o ragoriaeth, arloesi, a pharodrwydd i feddwl yn wahanol ac i adolygu'n barhaus ein ffordd o weithio, yn hanfodol i ddarparu gwasanaethau modern, digidol, effeithiol, ac effeithlon.

EIN BLAENORIAETHAU

Gwytwnch ariannol

Byddwn yn cynyddu gwytwnch a chynaliadwyedd ariannol, ac yn creu portffolio incwm amrywiol, gyda llai o ddibyniaeth ar arian cyhoeddus. Byddwn yn sicrhau bod yr holl ddarpariaeth fasnachol yn darparu gwerth am arian, gan ystyried trefniadau cyflenwi eraill, megis cyrchu strategol, pan all hyn wella gwerth am arian. Byddwn yn cynllunio ar gyfer dyfodol cynaliadwy, gan sicrhau bod ein cynlluniau busnes gweithredol yn cydfynd â chyflawni ein nodau tymor hir a'r nodau cynaliadwyedd a geir yn Neddff Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru).

Marchnata a brand

Byddwn yn buddsoddi i gael mynediad at wybodaeth a fydd yn galluogi'r brifysgol i weithredu ar sail tystiolaeth wrth ddatblygu ein portffolio ac wrth farchnata a recriwtio. Byddwn yn darparu marchnata creadigol a gweithgaredd adeiladu brand i gefnogi ein huchelgais i gynyddu ein henw da yn lleol, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol, ac i weithredu fel sylfaen i bob agwedd ar waith y brifysgol.

Ein campws

Byddwn yn llunio ac yn cyflwyno rhaglen effeithiol o welliannau i'n hamgylcheddau ffisegol a digidol a fydd yn bywiogi ac yn egnioli ein campws, gan ysgogi profiad a llwyddiant myfyrwyr, a darparu lle cynhwysol, croesawgar a diogel i'n holl gymuned, tra'n buddsoddi yn ein mannau dysgu ac ymchwil i sicrhau ein bod yn diwallu angenion darpariaeth addysg uwch gyfoes. Byddwn yn cydweithredu â blaenoriaethau Partneriaeth Strategol Bangor, gan gefnogi adfywiad dinas Bangor, a gwella cysylltiadau rhwng y brifysgol a'r ddinas. Bydd system reoli amgylcheddol y brifysgol yn parhau i gefnogi ein hymrwymiad i gynaliadwyedd amgylcheddol.

EIN BLAENORIAETHAU

Gwasanaethau Proffesiynol Modern

Byddwn yn sicrhau bod y gwasanaethau a ddarperir yn addas at y diben, ac yn cyd-fynd ag anghenion myfyrwyr, staff a rhanddeiliaid eraill. Byddwn yn cynnal gwasanaethau cynaliadwy trwy ddileu costau diangen, a hynny heb danseilio gwasanaethau craidd, trwy adolygu dibenion yr holl wasanaethau a phrosesau yn barhaus, trwy leihau gorbenion rheoli, a chael gwared â dyblygu a chystadlu rhwng gwasanaethau.

Digidol yn gyntaf

Byddwn yn hwyluso strategaeth a dulliau gweithio cynaliadwy'r brifysgol trwy ddarparu gwasanaethau o ansawdd uchel sy'n seiliedig ar dechnoleg, yn y modd mwyaf cost effeithiol, gan ddarparu gwasanaethau TGCh diogel, dibynadwy, hygyrch a dwyieithog i gefnogi addysgu a dysgu, ymchwil, profiad myfyrwyr, a holl brosesau'r brifysgol.





DARPARIAETH


Mae'r strategaeth hon ar frig hierarchaeth ein fframwaith strategol, ac yn darparu gweledigaeth hirdymor ar gyfer ein themâu strategol tymor canol (is-strategaethau) a'n prosesau cynllunio busnes blynyddol a fydd yn ein cefnogi i weithredu ein gweledigaeth strategol hirdymor. Yn ategol at y rhain ceir mentrau sylweddol i'w rhoi ar waith er mwyn gwireddu ein gweledigaeth strategol ynghynt.

Ceir fframwaith perfformiad i gyd-fynd â'r hierarchaeth hon, sy'n cynnwys ein prif ddangosyddion perfformiad allweddol sydd wedi eu hymgorffori yn y strategaeth hon, ac i ategu hynny ceir set gyfoethocach o nodau tymor byr i ganolig a dangosyddion perfformiad allweddol sy'n cyd-fynd â'r themâu strategol a'r cynlluniau busnes blynyddol. Mae proses o fapio nodau yn sicrhau bod y nodau tymor byr i ganolig a'r dangosyddion perfformiad allweddol yn cyd-fynd â'r gwaith o gyflawni'r nodau tymor hir a amlinellir yn y strategaeth hon. Mae cofrestrau risgiau corfforaethol a risgiau gweithredu'r brifysgol hefyd yn darparu gwybodaeth ansoddol sy'n cyd-fynd â phob lefel o'r fframwaith strategol.

Caiff y cynllun strategol ei gymeradwyo a'i oruchwylio gan y Cyngor, sef corff llywodraethu'r brifysgol; Bwrdd Gweithredol y brifysgol, gyda chefnogaeth ei bwyllgorau, sy'n cymeradwyo, ac yn goruchwylio'r themâu strategol a'r prosesau cynllunio busnes blynyddol. Mae'r Cyngor yn derbyn sicrwydd ar gyflawniad y nodau tymor byr i ganolig a'r dangosyddion perfformiad allweddol trwy adolygiadau blynyddol o strategaeth a pherfformiad.

Bydd y Bwrdd Gweithredol yn ymgynghori â staff a myfyrwyr ar ddatblygiad y cynllun strategol a'r themâu strategol ac yn sicrhau bod canlyniadau adolygiadau o strategaethau a pherfformiad yn cael eu cyfleu'n glir. Trwy strwythurau rheoli llinell a/neu strwythurau cynrychiolaeth, bydd staff a myfyrwyr yn cael cyfle i gyfrannu at y prosesau

blynyddol o gynllunio busnes a dylanwadu ar y gwaith o ddatblygu a monitro cynlluniau gweithredu. Bydd y prosesau cynllunio busnes blynyddol yn pennu sut y caiff adnoddau eu dyrannu a fydd yn cyd-fynd â chyflawniad dangosyddion perfformiad allweddol, nodau a gweledigaeth strategol hirdymor y brifysgol, a bydd yn galluogi cydweithredu a chysondeb rhwng meysydd academaidd a gwasanaeth proffesiynol.





PRIFYSGOL
BANGOR
UNIVERSITY

Prifysgol Bangor,
Bangor, Gwynedd, LL57 2DG

Mae Prifysgol Bangor yn Elusen Gofrestredig: Rhif 1141565

WWW.BANGOR.AC.UK